COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 22 HYDREF 2018, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | N Clarke | P Davies | A Hussain |
| DRW Lewis | JC Radcliffe | RMI Shaw | RME Stirman |
| E Venables | DBF White | JE Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

TH Beedle a/ac DG Howells

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gail Jewell | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Guy Smith | Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol |
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Cynghorydd Richard Young | Aelod Cabinet - Cymunedau |

57. DATGAN BUDDIANT

Datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cyng. S Baldwin fuddiant personol dan eitem 4 yr agenda, Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned, gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Datganodd y Cyng. N Clarke fuddiant personol dan eitem 4 yr agenda, Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned, gan ei bod yn aelod o Gyngor Tref Porthcawl.

Datganodd y Cyng. P Davies fuddiant personol dan eitem 3 yr agenda, Diweddariad ynghylch y Flaenraglen Waith, gan fod aelod o'i deulu yn gweithio yn Kier, Tondu a than eitem 4 yr agenda, Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Maesteg ac yn Gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau.

Datganodd y Cyng. Hussain fuddiant personol dan eitem 4 yr agenda, Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned, gan ei fod yn Gynghorydd Cymuned y Castellnewydd.

Datganodd y Cyng. D Lewis fuddiant personol dan eitem 4 yr agenda, Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned, gan ei fod yn aelod o Gyngor Cymuned Llansanffraid ar Ogwr.

Datganodd y Cyng. R Shaw fuddiant personol dan eitem 4 yr agenda, Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned, gan ei fod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Cwm Garw, yn aelod o Grŵp Llywio Canolfan Chwaraeon Gymunedol Cwm Garw, yn Gadeirydd Canolfan Llangeinor, yn Gadeirydd Cymdeithas Chwaraeon Pontycymer ac yn Gadeirydd elusen Calon y Cwm.

Datganodd y Cyng. J Spanswick fuddiant personol dan eitem 4 yr agenda, Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned, gan ei fod yn aelod o Gyngor Cymuned Bracla.

Datganodd y Cyng. R Stirman fuddiant personol dan eitem 4 yr agenda, Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned, gan ei bod yn aelod o Gyngor Cymuned Cwm Garw.

Datganodd y Cyng. R Young fuddiant personol dan eitem 4 yr agenda, Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned, gan ei fod yn aelod o Gyngor Cymuned Coety Uchaf.

58. DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu adborth o gyfarfodydd blaenorol Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 ynghyd â rhestr o'r ymatebion, gan gynnwys y rhai nad oeddent eto wedi cael sylw.

Cymeradwyodd yr Aelodau'r adborth a gafwyd yn sgil yr eitem am Briffyrdd a ystyriwyd yn y cyfarfod ar 12 Mehefin 2018 ynghyd â'r adborth a gafwyd yn sgil yr eitem 'Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Di-blastig' a ystyriwyd yn y cyfarfod ar 23 Gorffennaf 2018.

Ystyriodd yr Aelodau'r adborth a gafwyd yn sgil yr eitem am Wasanaethau Gwastraff a ystyriwyd yn y cyfarfod ar 17 Medi 2018.

- Gofynnodd yr Aelodau pryd y byddai'r pecynnau croeso i denantiaid newydd landlordiaid preifat a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu gweithredu.
- Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad bod yr Arweinydd wedi ysgrifennu at bob archfarchnad a chynhyrchwr bwyd lleol ynghylch peidio â defnyddio bagiau plastig mwyach a holwyd a oedd ymateb wedi dod i law.
- Gofynnodd yr Aelodau faint o rybuddion Adran 46, Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a gyhoeddwyd (nid Rhybuddion Cosb Benodedig fel yr amlinellwyd yn yr ymateb).
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch y mathau o gerbydau a dderbynnid yn y safle ailgylchu cymunedol ac i'r wybodaeth hon gael ei rhoi ar y wefan.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch adborth yn cael ei golli a bod yr un eitem yn cael ei hystyried gan ddau Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc. Codwyd yr angen hefyd i weithredu ar argymhellion.
Awgrymodd Aelod y gellid ystyried hyn wrth i'r strwythur craffu gael ei adolygu.

Soniodd y Swyddog Craffu y byddai'r gyllideb yn cael ei hystyried yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr ac y byddai'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cael sylw yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2019. Gofynnodd yr Aelodau i'r adroddiad ynghylch Trosglwyddo Asedau Cymunedol gynnwys diweddariad ynglŷn â'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn ei gyfarfod 12 mis yn ôl. Gofynnodd yr Aelodau hefyd sawl gwaith yr oedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi cwrdd a faint o Gynghorwyr oedd y rhan o'r grŵp.

Byddai Eiddo Gwag yn cael sylw yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2019. Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ynglŷn â'u hargymhellion. Gofynnwyd yn benodol a oedd Swyddog Eiddo Gwag dynodedig wedi'i benodi ac a wnaethpwyd y penodiad drwy'r Cydwasanaeth Rheoleiddio.

Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ynglŷn â hyfforddiant Bridgemaps ac awgrymwyd y dylai pob Aelod gael yr hyfforddiant hwn.

Gofynnodd yr Aelodau am ddisgrifiad llawn o'r hyfforddiant pan gaiff ei hysbysebu, ynghyd â gwahoddiad i gymryd rhan yn yr hyfforddiant hwnnw os yw'n berthnasol, hyd yn oed os oedd yr hyfforddiant wedi'i fwriadu ar gyfer pwyllgor penodol.

Gofynnwyd a oedd cynrychiolaeth o blith yr Aelodau ar y grŵp a oedd yn ystyried Atgyfeiriadau gan Aelodau.

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adborth a gafwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc a nodwyd yr ymatebion nad oeddent wedi dod i law eto.
2. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r adborth a grybwyllwyd uchod.
3. Dywedodd y Pwyllgor ba wybodaeth ychwanegol y dymunai ei gweld wrth ystyried yr eitemau a ddirprwywyd i gyfarfodydd yn y dyfodol.

## 59. CYDWEITHIO Â CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad a hysbysai'r Pwyllgor ynghylch canlyniad adolygiad cyfredol Llywodraeth Cymru o Gynghorau Tref a Chymuned a'i effaith ar y Cyngor. Amlinellai'r adroddiad y modd yr oedd y Cyngor yn elwa o'r cydweithio hwn hefyd, ynghyd â'r graddau yr oedd awdurdodau lleol eraill yn cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned.

Dywedodd y Cadeirydd yr estynnwyd gwahoddiad i Un Llais Cymru i'r cyfarfod ond na chafwyd ymateb ac nad oedd cynrychiolydd yn bresennol. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd anfon llythyr at Un Llais Cymru yn eu hannog i fod yn bresennol pan fydd y mater yn cael sylw mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dywedodd Aelod fod yr adroddiad yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio a'i fod hefyd yn crybwyll ansawdd y staff mewn Cynghorau Tref a Chymuned a'u gallu i gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn wastad yn rhoi digon o amser i Gynghorau Tref a Chymuned ymateb ac nid oedd yn briodol gofyn iddynt weithio i'r un lefel gan nad oedd ganddynt yr un nifer o staff na'r un capasiti â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd gwahaniaeth enfawr i'w gael o ran y gallu a'r awydd i gydweithio ac roedd yn gwbl hanfodol dod o hyd i gyfrwng cyfnewid a ffordd ymlaen a oedd yn addas i bawb. Trafododd y Pwyllgor y gwahaniaeth o ran sgiliau a medrau Cynghorwyr a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned yn y Fwrdeistref. Er mwyn deall y medrau hyn i gyd, awgrymodd yr Aelodau y dylid cynnal awdit sgiliau a gofynnwyd i'r pwnc gael ei gynnwys ar agenda Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned i'w drafod.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch yr angen am bwynt cyswllt. Cyn-Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd oedd y prif bwynt cyswllt ac roedd cael gweithiwr penodedig i ddelio â materion yn osgoi dryswch wrth ddod o hyd i'r person cywir i ddelio ag ymholiadau. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio y cafwyd trefn anffurfiol yn y gorffennol lle byddai cyn-Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am gyswllt â Chynghorau Tref a Chymuned. Ategodd fod hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Trafodwyd swyddogaeth y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng nghyd-destun cynnwys cyfrifoldebau sy'n ymwneud â chyswllt â Chynghorau Tref a Chymuned. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch ymestyn y swyddogaeth honno a gofynnodd sut y byddai'r baich gwaith ychwanegol posib yn effeithio ar ei allu i weithio'n effeithiol.

Nododd Aelod nad oedd yr adroddiad yn adlewyrchu'i phrofiad hi o gydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned. Roedd rhagor o weithgareddau'n cael eu datganoli i Gynghorau Tref a Chymuned ond dim ond ychydig o staff oedd ar gael. Nid oedd rhai ohonynt yn cael tâl, nid oedd rhai wedi'u hyfforddi ac roedd gallu'r staff yn amrywio. Nid oedd gan rai yr awydd i gydweithio. Yn ei barn hi, atebolrwydd oedd y prif fater. Roedd perygl y gallai un person neu grŵp bychan ddylanwadu ar y gwaith i gyd.

Dywedodd Aelod yr hoffai wybod rhagor am y ffordd yr oedd Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned a chyfarfodydd y Clercod yn gweithredu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod presenoldeb yng nghyfarfodydd Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned yn isel ar brydiau. Bwriad y Fforwm oedd delio â'r materion strategol mawrion yn hytrach na gyda materion mwy plwyfol eu natur.

Dywedodd un Aelod fod yr amseru'n broblem. Roedd yn anodd cael gwybodaeth oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac roedd gwybodaeth wedi'i chynnwys yn yr adroddiad nad oedd wedi'i gweld o'r blaen, er ei bod hefyd yn aelod o'r Cyngor Tref. Rhaid oedd cyflymu'r broses. Fodd bynnag, gyda llai o staff a rhagor o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn digwydd, gallai hyn fod yn broblem. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau nad oedd y gwasanaeth yn gweithredu yn ôl ardaloedd daearyddol. Dywedodd nad oedd felly'n wastad yn hawdd ateb cwestiynau e.e., 'faint o arian sydd wedi'i wario ar wasanaeth penodol mewn ward neu ardal benodol?' Yn ogystal â chael Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol, rhaid oedd cael cymorth cyfreithiol, cyllidol a chymorth eiddo er mwyn delio â cheisiadau i Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Er mwyn sicrhau digon o adnoddau ar gyfer hyn, rhaid oedd cael sicrwydd bod hwn yn fuddsoddiad gwerth chweil ac y gallai'r arbedion ariannol posib gyfiawnhau'r buddsoddiad.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac y gallai fod yn fecanwaith defnyddiol os oedd y Cynghorau Tref a Chymuned o ddifri am newid. Byddai hefyd yn caniatáu iddynt wneud cyfraniad gwerthfawr. Roedd yn bwysig ystyried sut i sicrhau bod llais bawb yn cael ei glywed mewn rhai meysydd a sut i weithio â Chlercod mewn ffordd wahanol.

Nododd Aelod fod llawer o sinigiaeth yng Nghyngor Tref Maesteg ynghylch cydweithio a'r canfyddiad oedd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwaredu â'i ddyletswyddau ac yn trosglwyddo costau i gyrff eraill. Roedd gwneud rhywbeth ynglŷn â'r meddylfryd sinigaidd hwn yn her.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod y sefyllfa ariannol yn gyrru'r agenda ac nad oeddent yn trosglwyddo popeth. Dywedodd fod enghreifftiau da o sut y gallai hyn weithio hefyd. Roedd yn gwybod am y ffordd gadarnhaol yr oedd rhai Cynghorau Tref a Chymuned yn ymateb i hyn.

Esboniodd Aelod fod rhai Cynghorau Tref a Chymuned wedi cael llythyron yn eu hysbysu y byddai'n rhaid i gyfleusterau gau pe na bai'r Cyngor Tref neu Gymuned hwnnw'n ysgwyddo cyfrifoldeb drostynt. Esboniodd pe na wyddai'r Cynghorau Tref a Chymuned am hyn pan osodwyd y praesept, ni allent eu hariannu. Byddai'n rhaid iddynt wybod beth fyddent yn ei ariannu cyn eu cyfarfod i drafod y gyllideb. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau nad oedd yr awdurdod wedi gallu gohebu â nhw cyn hynny gan mai dim ond pan osodwyd y gyllideb ym mis Chwefror y flwyddyn honno y gwnaethpwyd y penderfyniad. Cafwyd ymgynghoriad ynghylch y gyllideb pan drafodwyd y materion hyn, felly ni ddylai fod yn syndod llwyr. Gallai Cynghorau Tref a Chymuned felly ymbaratoi. Yn ogystal â hynny, roedd nifer o Aelodau'n gwisgo "dwy het", felly dylent fod yn ymwybodol o'r penderfyniadau posib. Deallai'r Pwyllgor y problemau a godai am fod y Cynghorau Tref a Chymuned yn gosod eu praesapt ar adeg

wahanol i broses gosod cyllideb y Cyngor. Fodd bynnag, dywedodd fod angen i'r Cyngor amlinellu'r lleihad posib yn y gyllideb er mwyn i'r Cynghorau Tref a Chymuned gael rhagor o amser i ystyried cynigion i gymryd dros wasanaethau ac asedau'r Awdurdod Lleol yn y dyfodol.

Ategodd y Prif Weithredwr na allai'r Cyngor barhau i ddarparu gwasanaethau yn yr un modd a'i fod yn awyddus i Gynghorau Tref a Chymuned ymgymryd â swyddogaeth wahanol. Pe gallai'r Cynghorau Tref a Chymuned ddefnyddio cyllid yn fwy effeithiol, gan weithio â grwpiau lleol ar faterion lleol, gellid cyflawni rhagor gyda'r un cyllid.

Dywedodd Aelod fod rhai Cynghorau Tref a Chymuned yn fwy tryloyw nag eraill ac y dylai fod parodrwydd i gydweithio cyn trosglwyddo rhagor o wasanaethau a phwerau. Esboniodd y Prif Weithredwr fod maen prawf i'w chael a oedd yn ymwneud â chynnal asesiadau. Bwriad y Cyngor oedd sicrhau bod Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn digwydd mewn modd cynaliadwy ac yn y ffordd gywir bob tro. Ni fyddai'n trosglwyddo ased pe na bai hyder yn y modd y byddai'r ased hwnnw'n cael ei redeg yn y dyfodol. Ategwyd bod peth ymddiriedaeth eisoes yn bod.

Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau am ymgynghoriad ynghylch y bwriad i sicrhau bod y Cyngor yn darparu caeau chwarae, caeau chwarae pob tywydd a pharciau a phafiliynau yn y dyfodol mewn ffordd sy'n fwy cynaliadwy yn ariannol. Cydnabu y byddai rhai o'r gwasanaethau yn methu pe caent eu trosglwyddo i Gynghorau Tref a Chymuned.

Cyfeiriodd Aelod at ganfyddiadau'r Panel Adolygu Annibynnol a gynghorai yn erbyn cael aelodau deuol. Yn ei barn hi, roedd gwasanaethu ar y ddau gyngor yn fantais enfawr am fod gan yr Aelodau ddealltwriaeth dda o'r darlun cyflawn. O ran canfyddiadau ac argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol wrth iddo ystyried swyddogaeth y Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol, argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno ymateb fel Cyngor cyfan a oedd yn cynnwys y sylwadau hyn:

- Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch yr argymhelliad i beidio â chael Aelodau'n gwisgo "dwy het". Anghytunai'r Pwyllgor a phwysleisiodd bwysigrwydd cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned i rannu arfer orau ac i gynnal perthynas adeiladol rhwng y ddau Gyngor;
- Wrth drafod datganoli gwasanaethau'r Cyngor a'u cyllidebau cysylltiedig i'r Cynghorau Tref a Chymuned, cododd yr Aelodau gwestiynau ynglŷn â'u gallu i ddelio â chyllidebau'r Cyngor Bwrdeistref Sirol. Mynegwyd pryder hefyd am y diffyg atebolrwydd ymhlith Cynghorau Tref a Chymuned.

Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i'w gwneud yn haws i Gynghorau Tref a Chymuned, y sector gwirfoddol ac unigolion ddarparu gwasanaethau ar ran y Cyngor. Argymhellodd yr Aelodau y dylid dirprwyo pŵer i'r Swyddog Cyswllt gynnal asesiad risg ar geisiadau i ddarparu cymorth ac i roi caniatâd addas.

Soniodd Aelod am ffederaleiddio Cynghorau Tref a Chymuned ac awgrymodd y gellid treialu peilot i wybod beth oedd y peryglon a'r cyfleoedd posib. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid paratoi peilot i dreialu 'Pen-y-bont ar Ogwr gyfunol'.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu hadroddiad ac am eu cyflwyniad.

**Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned**

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd anfon llythyr at Un Llais Cymru am nad oedd neb yn bresennol i gynrychioli'r corff a chyfrannu i'r sgwrs ynghylch y ffordd orau o hwyluso

cydweithio rhwng yr holl Gynghorau. Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i annog pobl i fod yn bresennol yn y dyfodol.

Deallai'r Pwyllgor y problemau a godai am fod y Cynghorau Tref a Chymuned yn gosod eu praesapt ar adeg wahanol i broses gosod cyllideb y Cyngor. Fodd bynnag, dywedodd fod angen i'r Cyngor amlinellu'r lleihad posib yn y gyllideb er mwyn i'r Cynghorau Tref a Chymuned gael rhagor o amser i ystyried cynigion i gymryd dros wasanaethau ac asedau'r Awdurdod Lleol yn y dyfodol.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno'r adroddiad 'Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned', ynghyd â'r sylwadau a'r argymhellion a wnaed yn y cyfarfod hwn, i Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn cychwyn trafodaeth a dod i wybod pa mor awyddus y byddai'r cynghorau llai i gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Trafododd y Pwyllgor y gwahaniaeth o ran sgiliau a medrau Cynghorwyr a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned yn y Fwrdeistref. Er mwyn deall yr holl fedrau hyn, argymhellodd yr Aelodau y dylid cynnal awdit sgiliau a gofynnwyd i'r pwnc gael ei gynnwys ar agenda Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned i'w drafod.

I gryfhau'r berthynas waith rhwng Cynghorau Tref a Chymuned a Chyngor Pen-y-bont, argymhellodd yr Aelodau y dylid datblygu protocol sy'n rhoi gwybodaeth am y swyddogion cyswllt i ddatrys materion cyfreithiol ac, yn yr un modd, i ddelio ag ymholiadau am wasanaethau. Dylai'r protocol hefyd gynnwys amserlen ymateb.

Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch ymestyn swyddogaeth y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol i gynnwys cyfrifoldebau sy'n ymwneud â chyswllt â Chynghorau Tref a Chymuned a gofynnodd sut y byddai'r baich gwaith ychwanegol posib yn effeithio ar ei allu i weithio'n effeithiol.

O ran canfyddiadau ac argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol wrth iddo ystyried swyddogaeth y Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol, argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno ymateb fel Cyngor cyfan a oedd yn cynnwys y sylwadau hyn:

- Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch yr argymhelliad i beidio â chael Aelodau'n gwisgo "dwy het". Anghytunai'r Pwyllgor a phwysleisiodd bwysigrwydd cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned i rannu arfer orau ac i gynnal perthynas adeiladol rhwng y ddau Gyngor;
- Wrth drafod datganoli gwasanaethau'r Cyngor a'u cyllidebau cysylltiedig i'r Cynghorau Tref a Chymuned, cododd yr Aelodau gwestiynau ynglŷn â'u gallu i ddelio â chyllidebau'r Cyngor Bwrdeistref Sirol. Mynegwyd pryder hefyd am y diffyg atebolrwydd ymhlith Cynghorau Tref a Chymuned.

Er mwyn helpu i annog cydweithio rhwng Cynghorau Tref a Chymuned, ac er mwyn sicrhau eu bod yn deall y buddion posib o uno â Chynghorau Tref a Chymuned eraill, argymhellodd y Pwyllgor y dylid paratoi peilot i dreialu 'Pen-y-bont gyfunol'.

Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i'w gwneud yn haws i Gynghorau Tref a Chymuned, y sector gwirfoddol ac unigolion ddarparu gwasanaethau ar ran y Cyngor. Argymhellodd yr Aelodau y dylid dirprwyo pŵer i'r Swyddog Cyswllt gynnal asesiad risg ar geisiadau i ddarparu cymorth ac i roi caniatâd addas.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Gofynnodd yr Aelodau am y rheolau a'r rheoliadau sy'n ymwneud â chomisiynu proses uno ffurfiol.

60. MATERION BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 12:35